CYFRES B10

amserbeibl

Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o lyfr Exodus a Numeri

Yn y rhifyn hwn, mae "ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th" yn cael eu trin fel dwy lythyren yn y posau, a roddir nhw mewn dau flwch ar wahân.

DARLLENWCH
Exodus 13: 17-22
14: 1-31

ADNODAU ALLWEDDOL
Exodus 14: 13

Astudiaeth 1 Moses – Drwy'r Môr Coch

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Exodus 15:1-21; Salm 106: 7-9; Hebreaid 11: 24-29

Bu'r Israeliaid yn byw yn yr Aifft am gyfanswm o 430 o flynyddoedd, i'r union ddiwrnod (Exodus 12: 40 a 41). Erbyn hyn, roedd Moses wedi eu harwain allan o'r Aifft, ar noson y Pasg, ond nid dyna ddiwedd y stori. Mewn gwirionedd, roedd hyn yn ddechrau cyfnod newydd ym mywyd yr Israeliaid, ond doedd eu trafferthion ond megis dechrau! Roedden nhw wedi dianc o'u caethiwed yn yr Aifft, ond nid oedd eu meistri'n barod i'w rhyddhau mor hawdd â hynny. Mae'r un peth yn wir pan fyddwn ni'n dod yn Gristnogion. Rydym yn dechrau bywyd newydd dan reolaeth Meistr newydd, yr Arglwydd Iesu. Ond nid yw Satan yn rhoi'r gorau i ni heb frwydro. Mae e am ein llusgo'n ôl i'n hen ffordd o fyw, ond drwy gymorth Duw gallwn ennill y fuddugoliaeth. Nid ar hyd y llwybr byrraf yr arweiniodd Duw yr Israeliaid i Wlad yr Addewid, oherwydd byddai hynny wedi eu harwain drwy diriogaeth cenedl elyniaethus.

C **Beth oedd enw'r genedl honno?**

C **Ym mha adnodau ym mhennod 14 mae Duw yn dweud y bydd yr Eifftiaid yn gwybod mai Ef yw'r Arglwydd oherwydd yr hyn roedd Ef ar fin ei wneud?**

Adnodau

C **Yn y Chwilair, rhowch gylch o gwmpas yr atebion i'r cliwiau canlynol. Llanwch y bylchau hefyd.**

B	E	R	W	N	I	W	L	P	H
C	A	D	I	O	D	A	J	T	E
L	N	A	U	D	E	H	O	H	E
D	U	N	L	C	F	R	S	A	A
E	J	F	W	S	I	L	E	H	A
M	T	S	I	H	E	T	F	I	N
I	E	H	A	T	R	F	F	H	G
G	R	H	A	G	A	N	F	C	E
S	I	W	C	M	I	G	D	O	L
P	F	G	M	O	R	T	S	C	N

1. Aeth Moses ag esgyrn y dyn hwn gydag ef.

2. Enw lleoliad eu gwersyll cyntaf.

3. Yn ystod y dydd, roedd yr Arglwydd yn mynd o'u blaen mewn colofn o ..... ac mewn colofn o .... liw nos.

4. Roedd .....Duw hefyd yn teithio o'u blaen.

5. Enw'r 3 man lle buont yn gwersylla ger y ... Coch.

....., ...a ..... (Gweler 13: 20 a 14: 2)

1

2

9

C **YN EICH GEIRIAU EICH HUN, disgrifiwch pam y penderfynodd Pharo eu dilyn.**

2

Gwnaeth yr Israeliaid gamgymeriad mawr pan aethant i banig a cholli ffydd yn yr Arglwydd oedd yn eu harwain. Cododd braw mawr arnynt wrth weld cerbydau'r Eifftiaid a'r marchogion yn dynesu atynt. Fe anghofion nhw'r cyfan roedd Duw eisoes wedi ei wneud drostynt. Roedden nhw'n siŵr fod pawb ar fin cael eu lladd. Troesant yn erbyn Moses a rhoi'r bai arno ef am eu bod mewn perygl.

Rydym ninnau hefyd yn euog o wneud camgymeriadau tebyg pan fyddwn ni'n amau gofal Duw ac yn anghofio'r cyfan mae Ef wedi'i wneud drosom. Rydym yn credu nad oes unrhyw ffordd drwy'r argyfwng neu'r broblem ddiweddaraf ac fe fyddwn yn edrych o'n cwmpas am rywun i gymryd y bai.

C **Yn yr Adnod Allweddol, beth ddywedodd Moses wrth y bobl am ei wneud?**

2

C **Beth ddywedodd Duw wrth Moses am ei wneud?**

1

Dywedodd Moses wrthynt y byddai'r Arglwydd yn ymladd ar eu rhan.

C **Ym mha adnod mae'r Eifftiaid yn cydnabod fod hyn yn wir?**

1

Adnod

Erbyn diwedd y bennod, roedd pob un o'r Eifftiaid a fu'n ymlid yr Israeliaid wedi marw tra bod yr Israeliaid i gyd wedi croesi'r Môr Coch yn ddiogel.

C **Pan ddigwyddodd hyn, beth oedd yr effaith ar yr Israeliaid?**

2

Mae Duw am i ni sylweddoli, os ydym yn eiddo Iddo, yna bydd Ef yn defnyddio'i allu i'n helpu pan fyddwn yn wynebu anawsterau. Does dim angen i ni ofni oherwydd gallwn ddibynnu ar Ei bresenoldeb a'i gymorth.

Enw _____

DARLLENWCH
Exodus 19: 1-25
20: 1-21

ADNODAU
ALLWEDDOL
Exodus 19: 5 & 20: 20

Astudiaeth 2 Moses – Ar Fynydd Sinai

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Eseia 6:1-8; Mathew 22: 35-40; Rhufeiniaid 3: 19 a 20; Iago 2: 8-13

Bu'r tri mis cyntaf o ryddid yn hanes yr Israeliaid yn gyffrous, a dweud y lleiaf. Yn gyntaf, cawsant groesi'r Môr Coch mewn ffordd wyrthiol a gweld difa byddin yr Eifftiaid. Wedi hynny, canodd Moses a'r Israeliaid gân o fawl a diolchgarwch i Dduw cyn symud yn eu blaen. Treuliasant dri diwrnod heb ddŵr a phan ddaethant, ym mhen amser, i Mara, roedd y dŵr yno'n chwerw ac yn anaddas i'w yfed. Unwaith eto, cyflawnodd Duw wyrth drwy Moses a throwyd y dŵr yn felys. Darparodd Duw fwyd iddynt hefyd yn yr anialwch. Yna, daeth yr Amaleciaid i ymladd yn erbyn yr Israeliaid, ond gyda chymorth Duw, cafodd yr Israeliaid fuddugoliaeth. (Exodus 17) Erbyn hyn, rydym wedi cyrraedd rhan bwysig o'r daith – cyrhaeddodd yr Israeliaid Fynydd Sinai ac mae Duw yn rhoi'r Deg Gorchymyn i'r bobl.

C **Mae'r gorchmynion wedi'u hysgrifennu'n gryno isod. Gosodwch nhw yn eu trefn gywir:-**

Na ladrata. Na ladd. Na chymer dduwiau eraill ar wahân i mi. Na wna iti ddelw gerfiedig.
Na odineba. Na chymer enw'r Arglwydd yn ofer. Na chwennych.
Cofia'r dydd Saboth, i'w gadw'n gysegredig. Anrhydedda dy dad a'th fam.
Na ddwg gamdystiolaeth.

1.	6.
2.	7.
3.	8.
4.	9.
5.	10.

5

C **Edrychwch ar Mathew 22: 37-40 ac ysgrifennwch y gorchymyn pwysicaf, yn ôl yr Arglwydd Iesu.**

2

Yn yr Adnod Allweddol gyntaf, mae Duw yn dweud mai Israel, o'r holl genhedloedd, fydd Ei eiddo arbennig Ef a'i genedl sanctaidd, os bydd y bobl yn gwneud dau beth.

C **Beth yw'r ddau beth hyn?**

1
2

1

C **Beth oedd eu hymateb i gais yr Arglwydd?**

1

GRID GEIRIAU



I Lawr

1. Ar ba ddiwrnod y dywedodd yr Arglwydd y byddai'n disgyn ar y mynydd?
2. Byddai unrhyw ddyn neu anifail oedd yn cyffwrdd â'r mynydd yn cael ei labyddio neu ei .....
3. Enw'r mynydd a'r anialdir o'i gwmpas.
4. Yr adar y sonnir amdanynt yn y darlleniad o'r Beibl.
5. Roedd pawb yn y gwersyll yn .....
6. Daeth Duw at Moses mewn ..... tew.

Ar draws

7. Yr offeryn cerdd y sonnir amdano. (gweler adnod 16) ..... .
8. Roedd mwg ar y mynydd oherwydd disgynnodd yr Arglwydd arno mewn .....

8

C **Enw pa le (8 llythyren *) sydd wedi ei ysgrifennu ar draws y GRID GEIRIAU? Ysgrifennwch yr enw a dywedwch beth ddigwyddodd yno, yn ôl y Darlleniad o'r Beibl?**

2

Roedd yn rhaid i Moses baratoi'r bobl ar gyfer achlysur arbennig iawn oedd i ddigwydd tri diwrnod yn ddiweddarach. Byddai'r Arglwydd yn dod i lawr ar Fynydd Sinai yng ngŵydd yr holl bobl. Doedd neb i gyffwrdd â'r mynydd neu byddai'n marw. Neilltuwyd y mynydd fel lle sanctaidd oherwydd roedd Duw yn mynd i ddisgyn arno. Oherwydd Ei bresenoldeb real Ef, roedd y mynydd yn lle sanctaidd.
Ar fore'r trydydd dydd, gwelsant ddigwyddiadau mor rhyfeddol ac arswydus fel bod pawb yn wir yn crynu gan ofn.

C **Beth ddywedodd Moses wrthyn nhw yn yr ail Adnod Allweddol?**

1

Ystyr 'ofn yr Arglwydd' yma yw parchedig ofn tuag at Dduw oherwydd Ei sancteiddrwydd a'i allu. Mae'n ddigon hawdd i ni golli golwg ar bwy yn union yw Duw. Nid yw Duw wedi newid. Un diwrnod, bydd yn dangos Ei rym a'i allu rhyfeddol a'i sancteiddrwydd i'r byd i gyd a bydd pawb yn ymgrymu o'i flaen.
Ond mae Duw yn gofyn am ein hufudd-dod a'n mawl ni heddiw. Dim ond os ydym wedi ymddiried yn yr Arglwydd Iesu fel ein Gwaredwr y gallwn ufuddhau Iddo a'i fodloni.

Enw _____

DARLLENWCH
Exodus 32: 1-35

ADNODAU ALLWEDDOL
Exodus 32: 26 & 33

Astudiaeth 3 Moses – Allan o'r Tân

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Genesis 3: 1-19; Actau 5: 1-11; 1 Thesaloniaid 1: 9 a 10; 1 Ioan 5: 21

Yn Exodus 24, galwodd yr Arglwydd ar Moses i ddod i fyny Ato i'r mynydd er mwyn Iddo roi i Moses lechi o garreg gyda chyfraith Duw wedi eu hysgrifennu arnynt. Felly, aeth Moses ar ei daith gyda Josua, ei gynorthwywr, gan adael y bobl yng ngofal Aaron, Hur a'r henuriaid. Pan esgynnodd Moses i'r mynydd, gorchuddiwyd y lle gan gwmwl a disgynnodd gogoniant Duw ar Fynydd Sinai. Galwodd Duw ar Moses o ganol y cwmwl. Safodd Moses ar y mynydd am ddeugain diwrnod a deugain nos. Roedd hyn yn ymddangos yn amser hir i'r bobl oedd yn aros islaw.

C Ysgrifennwch CWIR neu ANGHYWIR wrth ateb y canlynol:

Dywedodd y bobl na wyddent beth oedd wedi digwydd i Moses. .....
Dywedodd Aaron wrthynt am fod yn amyneddgar. .....
Dywedodd y bobl eu bod am ymuno â Moses i foli Duw. .....
Dywedodd Aaron wrthynt am roi eu clustdlysau aur iddo. .....
Gwnaeth Aaron lo aur. .....

5

CROESAIR



Ar Draws
1. Dywedodd Moses wrth y Lefiaid am wisgo'r arf hwn.
2. Gofynnodd Moses i Dduw .....pechodau'r bobl.
3. Dywedodd Moses wrth y bobl eu bod wedi cyflawni .....mawr. (adnod 30)
7. Malodd Moses y ddelw yn .... .
9. Addawodd Duw i Abraham y byddai ei ddisgynyddion mor niferus â'r rhain.
10. Brawd Moses
11. Addawodd Duw y byddai'n rhoi hwn i ddisgynyddion Abraham.

I Lawr
4. Anfonodd Duw Ei ..... i arwain Moses a'r bobl.
5. Gwasgarodd Moses y llwch aur ar y dŵr a mynnodd fod y bobl yn gwneud hyn.
6. Gwnaethpwyd y ddelw (y llo) o hwn.
8. Pan ddaeth Moses i lawr o'r mynydd gwelodd y bobl yn gwneud hyn.
12. Wedi i Aaron lunio'r llo, adeiladodd ..... o'i flaen.

6

Hyd yn oed wrth iddo roi cyfarwyddiadau i Moses, roedd Duw'n gweld ac yn gwybod yn union beth oedd yn mynd ymlaen yng ngwersyll yr Israeliaid. Nid yw Duw wedi ei gyfyngu, fel ni. Mae Ef yn gwybod popeth ac mae'n bresennol ym mhob man!

C Siomwyd Duw oherwydd roedd y bobl wrth droed y mynydd eisoes yn torri Ei ddeddfau! Beth ddywedodd Duw y byddai'n gwneud iddynt yn gyntaf?

1

Ond ymyrrodd Moses ar ran y bobl ac ymbiliodd ar Dduw i'w harbed.

C **YN EICH GEIRIAU EICH HUN, esboniwch y ddau brif bwynt a gyflwynodd Moses gerbron Duw (yn adnodau 11-13) wrth ymbil am drugaredd.**

2

C **Pa adnod sy'n dweud wrthym na ddiystyriwyd apêl Moses?**

1

Adnod

C **Pan aeth Moses ati i herio Aaron ynglŷn â'r hyn oedd wedi digwydd, pa gelwydd ddywedodd Aaron?**

1

Dyma achlysur pan fu'n rhaid i bob person benderfynu a oedd ef/hi ar ochr yr Arglwydd neu ar ochr y gwrthryfelwyr. Hyd yn oed HEDDIW, mae cwestiwn Moses yn berthnasol i ni – "Pwy sydd ar ochr yr Arglwydd?"

C **Rhowch gylch o gwmpas y llwyth a ymatebodd.**

Issachar Jwda Dan Lefi Benjamin

1

C **Beth wnaeth Moses â'r ddwy lech garreg oedd yn ei ddwylo wrth iddo ddod i lawr o'r mynydd?**

1

C **Ticiwch y frawddeg sy'n esbonio orau beth wnaeth Moses:-**

1. Llithrodd wrth ddod i lawr o'r mynydd. ☐
2. Roedd y cerrig yn rhy drwm i Moses eu cario. ☐
3. Roedd am bwysleisio i'r bobl eu bod wedi torri gorchmynion Duw. ☐
4. Credai fod y gorchmynion yn ddiwerth. ☐

1

Mae torri deddfau yn dod â CHOSB bob tro.

C **Disgrifiwch un ffordd y cafodd yr Israeliaid eu cosbi am dorri'r gyfraith.**

1

Rydym ninnau hefyd wedi torri deddfau Duw, ac yn haeddu Ei gosbedigaeth. Ond y newyddion da yw bod yr Arglwydd Iesu wedi cymryd y gosb yn ein lle. Bu farw "dros ein pechodau". Mae Duw yn galw arnom i edifarhau ac i ymddiried ynddo Ef.

Enw _____

DARLLENWCH
Numeri 21: 1-9

ADNOD ALLWEDDOL
Ioan 3: 14 ac 15

Astudiaeth 4 Moses – Yn yr Anialwch

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Ioan 3: 14-16; Philipiaid 2: 1-16; 1 Ioan 3: 4-8 ac 14-16

Mae llyfr Numeri yn adrodd hanes yr Israeliaid dros ddeugain mlynedd bron – o'r adeg pan adawsant Fynydd Sinai hyd nes iddynt gyrraedd ffin ddwyreiniol y wlad a addawyd iddynt gan Dduw. Mae'n cofnodi eu hofn a'u digalondid pan ddeuai caledi, a sut y byddent yn aml yn gwrthryfela yn erbyn Duw a Moses. Mae'n pwysleisio gofal ffyddlon a pharhaus Duw dros Ei bobl, er gwaethaf eu gwendid a'u hanufudd-dod. Mae hefyd yn dangos ymroddiad Moses i Dduw ac i'w bobl Ef.

CHWILAIR

Mae wyth enw person a lleoedd o'r Darlleniad o'r Beibl i'w gweld yn y Chwilair. Fedrwch chi ddod o hyd iddyn nhw? Maen nhw wedi eu hysgrifennu i fyny, i lawr, tuag yn ôl, tuag ymlaen neu'n groeslinol. Rhowch gylch o'u cwmpas yn y Chwilair ac ysgrifennwch nhw yn y bylchau islaw.

M	O	A	B	E	E	D	O	M
O	C	I	S	R	A	E	L	A
S	A	F	N	A	A	N	A	C
E	T	F	D	D	H	A	I	H
S	G	T	M	A	M	R	S	D
A	I	F	W	R	O	S	R	C
C	P	T	O	A	R	R	A	M
R	O	H	D	D	Y	N	Y	M

1. A ..... 5. Mynydd H.....
2. C ..... 6. E .....
3. I ..... 7. M .....
4. H ..... 8. A .....

8

Ar ôl eu buddugoliaeth yn erbyn y Canaaneaid, aeth yr Israeliaid ymlaen ar eu taith. Gallech feddwl y bydden nhw'n falch ac yn hapus, ond wnaeth teimladau felly ddim para'n hir!

C **Beth oedd eu hagwedd ar ôl cyrraedd Mynydd Hor?**

1

C **Siaradodd y bobl yn erbyn Duw a Moses. Beth ddywedon nhw?**



2

Roedd yr Israeliaid yn grwgnach ac yn cwyno'n fynych.

C **Edrychwch ar Philipiaid 2: 14 ac ysgrifennwch sut agwedd ddylai fod gan y Cristion.**

2

Bob tro cyn hyn, roedd Duw wedi rhoi i'r Israeliaid bob peth oedd ei angen arnynt, er nad oedd Ef yn fodlon gyda'r ffordd roedden nhw'n grwgnach ac yn cwyno.
Fodd bynnag, y tro hwn, doedd ganddyn nhw ddim i fod yn anniddig yn ei gylch. Yn wir, roedden nhw'n cwyno am yr hyn roedd Duw wedi ei ddarparu ar eu cyfer, gan ddweud nad oedd wrth eu bodd.

C **Ym mha ffordd y cosbwyd yr Israeliaid gan Dduw am hyn?**

1

Cyn hir, daeth y bobl i sylweddoli eu pechod a daethant at Moses.

C **Beth ddywedon nhw wrtho?**



2

Pan weddïodd Moses ar Dduw ynglŷn â'r mater, dywedodd Duw wrtho beth i'w wneud.

C **YN EICH GEIRIAU EICH HUN, esboniwch beth ddywedodd Duw wrth Moses am wneud, a beth oedd rhaid i'r bobl wneud.**

2

Nawr, edrychwch ar yr Adnodau Allweddol. Mae'r adnodau hyn yn dweud wrthym, yn union fel y cafodd y sarff ei chodi yn yr anialwch er mwyn achub yr Israeliaid rhag marw, felly hefyd, er mwyn i ni gael ein hachub oddi wrth ein pechodau, bu'n rhaid cael "dyrchafu" arall.

C **Pwy gafodd ei 'ddyrchafu' er mwyn i ni gael ein hachub?**

1

C **Ysgrifennwch yn llawn yr Adnodau Allweddol sy'n dangos hyn.**

1

Os oedd yr Israeliaid am gael eu hiacháu oddi wrth frathiadau'r seirff a chael byw, doedd yna ond un ffordd – ffordd Dduw. Os ydym ni eisiau cael ein hiacháu oddi wrth ein pechodau a chael bywyd tragwyddol, dim ond un ffordd sydd i ninnau hefyd – ffordd Dduw! Beth yw'r ffordd honno? Credu yn yr Arglwydd Iesu a fu farw ar y groes drosom ni.

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120